| Polisi PA ar Ysmygu | AU Policy on Smoking |
|---|---|
| Gwaherddir ysmygu ym mhob un o adeiladau'r Brifysgol, ym mynedfeydd rhannol-amgaeedig adeiladau a mynedfeydd allanol, wrth ffenestri ac mewn unrhyw ardaloedd eraill lle gallai mwg ddod i mewn i'r adeilad. | Smoking is prohibited in all University buildings, semi-enclosed building entrances and outside entrances, windows and other areas where smoke could enter a building. |
| Mabwysiadwyd y Polisi hwn gan Senedd a Chyngor y Brifysgol, ar argymhelliad Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Mae pob Undeb Llafur cydnabyddedig staff y Brifysgol yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor hwnnw. | This Policy has been adopted by the Senate and Council of the University, on the recommendation of the Health, Safety and Environment Committee, on which all the recognised Trades Unions of University Staff are represented. |
| **Gweithredu** | **Implementation** |
| Fel sy'n wir am agweddau eraill ar Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Pennaeth pob Adran neu Uned sy'n atebol i'r Cyngor am sicrhau bod y Polisi yn cael ei weithredu. | As with other aspects of Health and Safety at Work, the Head of each Department or other Unit is responsible to the Council for ensuring that this Policy is observed. |
| Mae'r Polisi yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol ac ymwelwyr i'r Brifysgol, gan gynnwys contractwyr. | The Policy applies to all staff and students of the University and visitors to the University, including contractors. |
| Gall y Brifysgol ddynodi mannau penodol wedi eu diffinio ar gyfer ysmygu. | The University may designate certain defined areas for the purposes of smoking. |
| Canlyniad methiant gan staff neu fyfyrwyr y Brifysgol i gydymffurfio â'r polisi fydd gweithredu trefniadau disgyblaethol. | Failure by staff and students of the University to comply with the Policy will result in disciplinary procedures being invoked. |
| Mae'r Polisi yn cynnwys deunydd ysmygu traddodiadol yn ogystal â rhai 'electronig' neu 'e-sigarét'. | The Policy applies equally to traditional smoking materials and 'electronic' or 'e-cigarettes'. |
| Cydnabyddir bod gofynion cyfreithiol penodol yn y maes yn dal i gael eu datblygu. Bydd gofynion o'r fath yn dod yn rhan o bolisi'r Brifysgol pan ddônt i rym a rhoddir gwybod amdanynt mewn modd priodol. | It is recognised that specific legal requirements in this area are still developing. All such requirements automatically form part of University policy when they are invoked and will be communicated appropriately. |

Fersiwn 3. Chwefror, 2013. Cymeradwywyd gan Senedd a Chyngor y Brifysgol

Version 3. February, 2013. Approved by University Senate and Council.